# rydym yn recriwtio

## uchafbwyntiau y swydd





# Gweithiwr Hamdden

## Gwybodaeth Allweddol

**Cyflog**: £24,404 - £24,790 y flwyddyn
**Oriau**: Oriau llawn amser, rhan amser ac achlysurol ar gael
**Lleoliad**: SC2, Y Rhyl

## Ynglŷn â'r Swydd

Fel Gweithiwr Hamdden, fe fyddwch chi'n sicrhau bod gan ein cwsmeriaid fynediad at gyfleusterau glân, diogel a chroesawgar.

Mae Achub Bywydau yn rhan ganolog o'r swydd, felly fe fydd angen i chi dalu sylw manwl i bawb sy'n defnyddio'r pwll, gan sicrhau bod pawb yn ddiogel drwy'r amser ac yn cadw at reolau'r pwll.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd yr ydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly rydym yn disgwyl i chi ddangos balchder ym mhob rhan o'r ganolfan, gan sicrhau ei bod yn lân, yn daclus, ac yn ddiogel i bawb ei defnyddio bob amser.

Mae Hamdden Sir Ddinbych ar agor 7 diwrnod yr wythnos, felly byddwch yn dilyn patrwm sifft sy'n cynnwys gweithio yn ystod y dydd, min nos ac ar benwythnosau.

**Mae'r pecyn yma ar gael yn y Gymraeg hefyd / This pack is also available in Welsh**



# Gweithiwr Hamdden

## Amdanoch Chi

Byddwch yn unigolyn hyderus a chyfeillgar, gyda sgiliau ymdrin â phobl ardderchog a sylw gwych i fanylder.

Rydym wrth ein bodd yn datblygu ein staff, felly mae'r awydd i ddysgu a datblygu yn hanfodol ar gyfer y swydd hon. Fe fyddwn ni'n eich cefnogi chi bob cam o'r ffordd gyda hyfforddiant yn y swydd.

Bydd angen i chi feddu ar gymhwyster NPLQ, ac yn ddelfrydol, bydd gennych brofiad o weithio gyda chwsmeriaid.

Mae ein cwsmeriaid yn bwysig iawn i ni, felly rydym angen rhywun sy'n gallu tawelu meddyliau pobl, ac sydd awydd sicrhau bod profiad pawb yn un gwych bob amser.

Mae'n bwysig iawn fod pawb yn ddiogel bob amser, felly bydd angen i chi fod yn hyderus i gymryd camau i atal unrhyw ymddygiad a allai roi eraill mewn perygl, mewn modd cyfeillgar a chadarn.

Os ydych chi'n unigolyn cyfeillgar a brwdfrydig sy'n awyddus i helpu eraill a gweithio i gwmni llwyddiannus sy'n datblygu'n gyflym, efallai mai dyma'r cyfle yr ydych wedi bod yn aros amdano.



# Gweithiwr Hamdden

## Amdanom Ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy’n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

## Ein Gwerthoedd

- Uchelgais a Thwf
- Ymddiriedolaeth ac Uniondeb
- Rhagoriaeth a Gwydnwch
- Balchder ac Angerdd



# Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisïau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

**Lleoliad**: SC2, West Parade, Rhyl, LL18 1BF

**Dyddiad Cau**: 24.03.25

**Ymgeisiwch ar ein gwefan**: https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/

SC2